Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd nos Fercher, 6 Mawrth 2024, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, Ms R. S. Roberts, Ms V. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc

## 77. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs J. M. Evans, Ms S. Fleming a B. Mellor.

## 78. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MIS CHWEFROR 2024

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r agenda) yn nodi manylion y taliadau a wnaed a'r incwm a dderbyniwyd.

| Taleb rhif: | Enw'r cyflenwr | Swm | Disgrifiad y nwyddau / gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol HW |
| 1768 | HSBC | 8.00 | Ffioedd bancio |
| 1526 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol HW |
| 1781 | Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi | 3,084.77 | Didyniadau Talu wrth Ennill – mis Ionawr 2024 |
| 1782 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,881.43 | Didyniadau pensiwn a chyllido'r diffyg – mis Ionawr 2024 |
| 1783 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 8,301.26 | Tâl net – mis Ionawr 2024 |
| 1658 | Siop Cyngor am Fudd-daliadau | 1,166.67 | Swyddog Apeliadau 23/24 – taliad 11 o 12 |
| 1539 | Tesco | 3.00 | Yswiriant ffôn symudol GN |
| 1539 | Tesco | 12.99 | Ffioedd ffôn symudol GN |
| | **Cyfanswm y taliadau** | **£17,474.11** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar y cyfrif Hysbysiad 31 diwrnod | 295.99 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 28.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 28.86 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.48 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 7 diwrnod | 21.48 |
| HSBC | Llog ar y cyfrif Adneuo 6 mis | 21.48 |
| Amrywiol | Tocynnau a brynwyd i Noson Cwis Elusennol y Maer | 300.00 |
| | **Cyfanswm yr incwm** | **£718.15** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.*

## 79. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Atodlen B a gyflwynwyd gan Glerc y Dref (rhestr taliadau nad ydynt yn daliadau rheolaidd i'w rhyddhau yn ystod y mis nesaf) (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

| Rhif taleb: | Cyflenwr | Manylion y cyflenwad | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1790 | Cyngor Sir Ddinbych | Canolfan Gymuned Ffordd Wellington – tâl gwasanaeth Chwarter 4, mis Ionawr – mis Mawrth 2024 | 3,823.00 |
| 1791 | Sandra Williams | Gwasanaethau cyfieithu | 169.28 |
| 1792 | Proarb Ltd | Coeden Nadolig 2023 | 2,100.00 |
| 1793 | Amazon UK | Nwyddau swyddfa | 210.21 |
| 1794 | Cyng. C. L. Williams | Treuliau mis Chwefror 2024 | 24.50 |
| 1795 | Purple Plaque Campaign | Cyfraniad tuag at blac Dorothy Miles | 1,000.00 |
| 1796 | Cyngor Sir Ddinbych | Contract goleuadau addurniadol 2023/24 | 13,881.98 |
| | **Cyfanswm y taliadau Atodlen B** | | **£21,208.97** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau yn yr atodlen a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

## 80. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, ar sail cyfrinachedd.*

## 81. DIGWYDDIADAU A GEFNOGIR GAN GYNGOR TREF Y RHYL - 2024/25

Croesawodd y Maer Mr Jamie Groves a Mr Gwyn Hughes o Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r aelodau ar y rhaglen prif ddigwyddiadau a gefnogir gan y cyngor tref i'w cynnal yn ystod 2024/25 (copi o neges e-bost gyfrinachol wedi'i ddosbarthu gyda'r agenda).

Amlinellodd Mr Groves y rhaglen a drefnwyd a chynigiodd i'r cyngor tref gael cynrychiolaeth ar weithgor yn y dyfodol i rannu gwybodaeth a syniadau am yr holl raglenni digwyddiadau o hyn ymlaen.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Groves a Mr Hughes am eu hamser a derbyniodd y gwahoddiad i gynrychiolwyr fod yn aelodau o'r gweithgor.

***PENDERFYNWYD*** *y byddai Clerc y Dref yn gwahodd Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych i gyfarfod y Cyngor Tref i gynghori'r aelodau am*

*eu disgwyliadau gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yng nghyswllt digwyddiadau yn y dyfodol.*

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol yn yr eitem uchod, oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, ac arhosodd yn y siambr tra roedd Mr Groves a Mr Hughes yn bresennol.]**

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs D. L. King fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn yr eitem uchod wedi i Mr Groves a Mr Hughes adael y cyfarfod wrth i'r trafodaethau droi at gyllid y cyngor tref, a gadawodd y siambr ac ni chymerodd ran bellach yn y trafodaethau na'r pleidleisio.]**

## 82. PENODI DIRPWY FAER AM Y FLWYDDYN DDINESIG 2024/25

Cynghorodd Clerc y Dref fod y Cynghorydd a enwebwyd yn flaenorol, y Cynghorydd Mrs M. A. Blakeley-Walker, wedi ystyried ei sefyllfa ac yn anffodus yn teimlo na allai dderbyn y swydd oherwydd ymrwymiadau teuluol ac ymrwymiadau gwaith ac ni fyddai'n medru rhoi'r amser haeddiannol i'r swydd.

Diolchodd y Cynghorydd Blakeley-Walker i'w chyd-gynghorwyr am eu ffydd ynddi ac roedd yn gobeithio y byddai mewn sefyllfa i ailystyried hyn yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cynghorydd S. Feeney yn enwebu a'r Cynghorydd Ms. R. S. Roberts yn eilio'r Cynghorydd A. Walker am swydd y Dirprwy Faer, a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Walker (yn ddarostyngedig i gadarnhau hynny yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor).*

## 83. DIWEDDU'R CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Cadeirydd: …………………………

Dyddiad: ……………….…………